**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**
**Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1045
Ein cyf/Our ref EM/00659/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

12 Ionawr 2021

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Hydref ynghylch Deiseb P-05-10 45: Dylai penderfyniadau ar y cyd ac adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl fod yn ofyniad cyfreithiol. Ymddiheuraf am yr oedi cyn eich ateb.

Dylid adolygu cynlluniau gofal yn seiliedig ar angen clinigol, o leiaf bob chwe mis. Roeddwn i'n drist iawn o glywed am y golled drasig a ddioddefwyd gan y deisebwyr. Mae'n rhaid bod hyn yn gyfnod anodd iddyn nhw a'u teuluoedd, a byddwn yn eu hannog i drafod eu pryderon yn uniongyrchol gyda'r bwrdd iechyd perthnasol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ymchwiliadau i'r digwyddiad hwn yn cymryd eu profiadau i ystyriaeth.

Mae ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i wella cymorth iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru.

Mae gwaith eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd yn y ddeiseb. Yn dilyn adroddiad ar gynllunio gofal a thriniaeth a gynhaliwyd gan yr Uned Gyflawni yn 2018, mae byrddau iechyd yn pennu cynlluniau gwella o ran Cynllunio Gofal a Thriniaeth, gan ystyried y materion a nodwyd yn y ddeiseb. Mae'r bwrdd rhwydwaith iechyd meddwl hefyd yn cynnal adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd, i nodi beth a olygir wrth wasanaeth da ac i gymryd camau i symud tuag at ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau. Mae'r ddau ddarn hyn o waith yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sydd â phrofiad uniongyrchol.

Mae Gwella Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd i wella arferion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, sy'n sicrhau ein bod yn defnyddio gwybodaeth i ddeall profiad cleifion yn well

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ac i asesu eu llesiant.  Mae nifer o gynlluniau peilot ar y gweill a bydd y model yn cael ei ehangu ar draws gwasanaethau drwy gydol 2021-22.

Yn ogystal, comisiynwyd ein fforwm iechyd meddwl cenedlaethol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i gynhyrchu canllawiau cenedlaethol ar gydgynhyrchu, gan sicrhau bod yr holl wasanaethau'n cynnwys unigolion a gofalwyr wrth wraidd popeth a wnânt.

Gallwch weld Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22 yma:
https://llyw.cymru/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-iechyd-meddwl-2019-i-2022

Mae ein strategaeth Siarad â Fi 2 ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niweidio yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i leihau'r risg o golli bywyd yn drasig oherwydd hunanladdiad. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi rheolaidd a phenodi cydlynydd cenedlaethol newydd a thri chydlynydd rhanbarthol i oruchwylio'r gweithgareddau niferus sy'n digwydd ledled Cymru. Mae gweithgarwch i wella'r broses o gasglu data, rhoi cymorth mewn profedigaeth, ac ymyrryd yn gynnar i annog pobl i geisio cymorth, ochr yn ochr â gwaith gyda byrddau iechyd a phartneriaid ar ofal argyfwng i bobl sy’n dioddef oherwydd eu hiechyd meddwl.

Gallwch weld y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-Niwed Siarad â Fi 2 Yma:
https://llyw.cymru/strategaeth-atal-hunanladdiadau-hunan-niweidio-2015-i-2020

Gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ac fe fyddwn i’n ddiolchgar pe byddai modd i chi fynegi fy nghydymdeimlad â theulu Bronwen.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language